Dŵr Cymru
Welsh Water

# Crynodeb o Daliadau Domestig 2023-24

Crynodeb o'n taliadau domestig sydd yn y ddogfen hon. Gellir cael manylion llawn ein taliadau ac amodau a thelerau ein gwasanaethau yn ein Cynllun Taliadau sydd ar gael ar ein gwefan **dwrcymru.com**

## Taliadau Anfesuredig

Os adeiladwyd eiddo cyn 1 Ebrill 2000 ac nad yw'r deiliad wedi gofyn am i fesurydd gael ei osod yn yr eiddo, bydd yn talu taliadau anfesuredig. Ni fydd y tâl yn adlewyrchu faint o ddŵr mae'r deiliad yn ei ddefnyddio.

Anfonir biliau anfesuredig unwaith y flwyddyn ac maent yn dod mewn un o ddau fformat, sef naill ai:

**Tâl Gwerth Ardrethol** — bydd y bil yn cynnwys tâl sefydlog a thâl am bob punt o werth ardrethol yr eiddo

neu

**Tâl Gwasanaeth Unffurf** (ar gyfer eiddo a adeiladwyd rhwng 1 Ebrill 1990 a 31 Mawrth 2000) — bydd y taliadau'n seiliedig ar werth ardrethol cyfartalog eiddo yng Nghymru.

| Gwasanaethau Dŵr Anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 138.23 |
| Tâl yn seiliedig ar GA - fesul punt o GA | 1.0877 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 279.63 |

| Gwasanaethau Carthffosiaeth Anfesuredig | (£) |
|---|---|
| Tâl Sefydlog | 215.36 |
| Tâl Sefydlog – Dŵr Budr yn Unig | 163.56 |
| Tâl yn seiliedig ar GA - fesul punt o GA | 1.6992 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf | 436.26 |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr Budr yn Unig | 384.46 |
| Dŵr Wyneb yn Unig – gan gynnwys draenio priffyrdd<br>(ni chodir tâl ar eiddo â gwerth ardrethol o £25 neu lai) | 52.59 |

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Taliadau Mesuredig

Mae biliau mesuredig yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddir. Mae mesurydd ym mhob eiddo a adeiladwyd ers 1 Ebrill 2000. Os symudwch i eiddo â mesurydd, ni chewch ddychwelyd i dalu ar sail anfesuredig.

Anfonir biliau mesuredig bob chwe mis yn seiliedig ar eich defnydd go iawn a gofnodir ar y mesurydd, neu ar amcangyfrif os na gymerir darlleniad o'r mesurydd. Ar y cyfan, po fwyaf o ddŵr y defnyddiwch chi, po fwyaf fydd y bil. Fel arfer codir tâl am garthffosiaeth ar sail y rhagdybiaeth fod 95% o'r dŵr a ddefnyddir yn dychwelyd i'r garthffos.

Lle bo bil mesuredig yn cwmpasu cyfnod cyn ac ar ôl 1 Ebrill, byddwn ni'n codi am y dŵr a ddefnyddiwyd cyn 1 Ebrill ar gyfraddau'r flwyddyn flaenorol, a'r dŵr a ddefnyddiwyd o'r dyddiad hwnnw ymlaen ar y cyfraddau isod. Mae'r tâl mesuredig yn ymrannu'n dair elfen:

**Cyflenwi dŵr** — sy'n seiliedig ar y defnydd o ddŵr y mae'r mesurydd yn ei gofnodi mewn metrau ciwbig. Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân.

**Carthffosiaeth** — sydd eto'n seiliedig ar y defnydd o ddŵr y mae'r mesurydd yn ei gofnodi.

**Tâl Gwasanaeth** — a gyfrifir ar sail dyddiol ac sy'n seiliedig ar faint y mesurydd. Mae'r mwyafrif o fesuryddion domestig hyd at 25mm. Mae'r tâl gwasanaeth yn cynnwys cost darllen a chynnal y mesurydd, a gosod un newydd pan fo angen.

| Taliadau mesuredig safonol – domestig | Dŵr(£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Cyfradd gyfeintiol safonol fesul metr ciwbig | 1.4526 | 1.9534 |
| Cyfradd gyfeintiol carthffosiaeth — Dŵr budr yn unig fesul metr ciwbig | | 1.9534 |

| Tâl Gwasanaeth | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) | Carthffosiaeth – Dŵr Budr yn unig (£) |
|---|---|---|---|
| Hyd at 25mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |
| 30mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |
| 40mm | 40.51 | 110.82 | 76.22 |

## Ad-daliadau Dŵr Wyneb

Mae taliadau carthffosiaeth yn cynnwys tâl am ddraenio ddŵr wyneb a draenio priffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y gost o ddraenio, trin a gwaredu dŵr glaw. Os nad yw'r dŵr glaw ar eich eiddo'n draenio i'r garthffos gyhoeddus, ni fydd angen i chi dalu elfen dŵr wyneb eich taliadau. Gallwch gyflwyno ffurflen gais am Ad-daliad Draenio Dŵr Wyneb ar lein trwy ein gwefan **dwrcymru.com** neu gallwch wneud cais trwy ffonio **0800 052 6058**. Bydd unrhyw ad-daliad yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 neu o ddyddiad meddiannu'r eiddo os yw hynny'n hwyrach.

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Taliadau Mesuredig ar sail Asesiad

Gall cwsmer domestig ddewis y tâl mesuredig ar sail asesiad (AMC) pan nad yw'n rhesymol ymarferol gosod mesurydd yn ei gartref, neu os byddai gosod mesurydd yn afresymol o ddrud. Mae'r tâl mesuredig ar sail asesiad yn seiliedig ar fand y tâl dŵr, nifer y deiliaid a'r rhagdybiaeth bod 95% o'r dŵr yn cael ei ryddhau i'r garthffos.

| Dŵr | Band A - Defnydd cyfartalog<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | | Band B - Defnydd isel<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y deiliaid | Tâl blynyddol (£) | Asesiad o'r Defnydd ($m^3$/blwyddyn) | Tâl blynyddol (£) | Asesiad o'r Defnydd ($m^3$/blwyddyn) |
| 1 | 134.93 | 65 | 111.68 | 49 |
| 2 | 174.15 | 92 | 145.10 | 72 |
| 3 neu ragor | 220.63 | 124 | 185.77 | 100 |

| Carthffosiaeth | Band A - Defnydd cyfartalog<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | | Band B - Defnydd isel<br>Ar sail unedau llwytho/teclynnau yn yr eiddo | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y deiliaid | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£) | Tâl blynyddol Llawn (£) | Tâl blynyddol Dŵr Budr yn unig (£) |
| 1 | 231.45 | 196.85 | 201.75 | 167.15 |
| 2 | 281.55 | 246.95 | 244.43 | 209.83 |
| 3 neu ragor | 340.93 | 306.33 | 296.40 | 261.80 |

Dŵr Cymru
Welsh Water

# Tariffau Cymorth Fforddiadwyedd

Mae'r Cwmni'n cynnig amrywiaeth o dariffau cymorth fforddiadwyedd â'r nod o gadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid ag incwm isel neu sy'n agored i niwed.

## HelpU

Mae'r tariff hwn yn helpu'r aelwydydd â'r incwm isaf yn ein rhanbarth. I fod yn gymwys ar gyfer y tariff yma, rhaid i'r cyflenwad dŵr ar gyfer yr aelwyd fod at ddefnydd domestig yn unig, a rhaid i gyfanswm incwm cyfredol yr aelwyd fod yn llai na'r trothwy a gyhoeddir fesul blwyddyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gymhwyster cwsmeriaid ar gyfer **HelpU** yn **dwrcymru.com**

| HelpU | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol (i gwsmeriaid oedd ar y tariff HelpU ar 31 Gorffennaf 2020, nid yw hyn ar gael i gwsmeriaid newydd) | 109.09 | 148.44 |
| Tâl blynyddol (ar gael i geisiadau newydd o 1 Awst 2020 ymlaen) | 124.01 | 167.29 |

## WaterSure Cymru

Mae'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid sy'n derbyn rhai budd-daliadau neu gredydau treth penodol. Mae'n helpu teuluoedd a chartrefi mawr lle bo gan rywun ar yr aelwyd anhwylder meddygol sy'n gofyn eu bod nhw'n defnyddio tipyn sylweddol yn fwy o ddŵr nag sy'n arferol. Fe'i bwriedir ar gyfer cwsmeriaid mesuredig yn unig. Mae rhagor o fanylion am **WaterSure Cymru** ar **dwrcymru.com**

| WaterSure Cymru (Cwsmeriaid mesuredig yn unig) | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 166.32 | 236.99 |

| WaterSure Cymru AMC | Dŵr (£) | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol | 166.32 | 236.99 |

## Cymorth Dŵr Cymru

Codir tâl ar gwsmeriaid cymwys a oedd yn talu tâl pontio Cymorth Dŵr Cymru am wasanaeth carthffosiaeth yn unig ar gyfradd Cymorth Dŵr Cymru – y tâl pontio blynyddol am garthffosiaeth yn unig. Nid yw'r tariff hwn ar gael i gwsmeriaid a oedd yn arfer talu tâl pontio cyfunol Cymorth Dŵr Cymru am ddŵr a charthffosiaeth.

| Cymorth Dŵr Cymru – Pontio | Carthffosiaeth (£) |
|---|---|
| Tâl blynyddol | 236.99 |